Asesiadau yn Wrecsam

Plant a Theuluoedd

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Personol

Rhagfyr 2001

Mae fersiwn print bras o'r ffurflen hon ar gael.
Ffoniwch 01978 291422 am gopi.

Beth yw Asesiad?

Byddwch chi neu rywun arall sy'n gweithredu ar eich rhan wedi gofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gymorth gyda rhyw anhawster rydych yn ei gael sy'n effeithio ar eich plentyn neu blant.

Cyn gall y Gwasanaethau Cymdeithasol helpu, mae angen i ni wybod mwy amdanoch chi a'ch teulu. Byddwn yn siarad â chi am yr hyn a ddarganfyddwn a'r hyn a ellir ei wneud. Rydym yn galw hyn yn asesiad.

Pam gwneud Asesiad?

Drwy wneud asesiad byddwn yn ceisio darganfod pa gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch chi a'ch teulu a phwy allai roi'r cymorth hwnnw. Bydd angen ysgrifennu hyn i gyd i lawr.

Gweithwyr cymdeithasol sy'n gwneud asesiad fel arfer. Dylid ei wneud gyda'ch cymorth chi bob amser ac mewn ffordd sy'n helpu chi i fynegi eich barn.

Bydd unrhyw beth a ddywedwch yn cael ei gadw'n gyfrinachol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Os bydd raid i ni ddweud wrth rywun arall, byddwn yn gofyn am eich cytundeb. Dim ond os bydd bygythiad difrifol i les eich plentyn byddwn yn rhannu'r hyn a wyddom heb eich cytundeb ac yn groes i'ch dymuniadau. Byddwn yn dweud wrthych beth yw eich hawliau os gwnawn hyn.

Beth fydd yn digwydd?

- Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cyfarfod â chi ac eraill yn eich teulu i wneud asesiad.
- Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gweld a siarad â'r plant dan sylw a helpu nhw i ymuno yn y sgwrs a sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud yn yr asesiad, lle'n bosibl.
- Byddwn yn ystyried eich cefndir ethnig a'ch diwylliant.
- Os bydd angen cymorth arnom i sicrhau ein bod yn deall yr hyn rydych chi neu eich plentyn am ddweud wrthym, byddwn yn cysylltu â rhywun a all helpu ni i siarad â'n gilydd, er enghraifft, cyfieithydd neu arwyddwr.
- Pan fydd unigolion eraill eisoes yn helpu chi a'ch teulu, mae'n debygol y bydd raid i'r gweithiwr cymdeithasol siarad â hwy. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi.
- Os anghytunwch ag unrhyw beth a ysgrifennir amdanoch yn yr asesiad, bydd eich sylwadau'n cael eu cofnodi ar y ffurflen asesu hefyd.

Amcan yr asesiad yw gweld lle gallwn helpu a llunio cynllun i helpu eich plentyn neu blant. Byddwch yn cael copi o'r cynllun.

Beth fyddwn yn disgwyl gennych?

Gwyddom fod y mwyafrif o rieni am wneud y gorau i'w plant. Y mwyaf y gallwch rannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol, y mwyaf tebygol fydd y gallwn eich helpu chi. Y cynharaf rydych yn cyfarfod â'r gweithiwr cymdeithasol, y cynharaf y gallwn gwblhau'r asesiad.

Beth allwch ddisgwyl gennym ni?

- Byddwn yn gwrando'n ofalus arnoch, yn cynnig cyngor ac, os bydd angen, yn cynnig cefnogaeth i'ch helpu chi i fagu'r plant a darganfod ffyrdd i'ch helpu chi gyda'ch anawsterau.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr hyn a wnawn.
- Gwyddom fod y rhan fwyaf o deuluoedd yn gallu datrys eu problemau eu hunain gydag ychydig o gymorth a'n hamcan yw gwneud hynny. Mewn nifer fechan o achosion, bydd pryderon difrifol ynghylch diogelwch plentyn. Ein pryder cyntaf fydd sicrhau bod y plentyn yn ddiogel. Gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol esbonio hyn. Mae gennych hawl i wybod.
- Byddwn yn gwneud ein gorau i gynnig unrhyw gymorth i chi cyn gynted â phosibl. Yn aml, mae mwy o bobl angen cymorth ag sydd ar gael. Golyga hyn y gallai fod rhaid i chi aros, er bod pawb yn cytuno bod angen cymorth arnoch. Os digwydd hyn, byddwn bob amser yn ceisio darganfod ffordd arall o helpu. Ni allwn addo y cewch y gwasanaeth penodol rydych yn ei ddymuno.

Faint o amser fydd yr Asesiad yn cymryd?

Ein hamcan yw gwneud "Asesiad Cychwynnol" o fewn 7 diwrnod gwaith.

Ar adegau, bydd raid i ni dreulio mwy o amser yn gwneud asesiad os yw pethau'n gymhleth neu os oes angen cyngor gan bobl o wasanaethau eraill. Er enghraifft, gallai fod angen gofyn i baediatregydd am gyngor arbenigol.

Gelwir yr asesiad llawn hwn yn "Asesiad Craidd" a dylid ei wneud o fewn 35 diwrnod gwaith. Os bydd angen cymorth cyn i'r asesiad gael ei gwblhau, byddwn yn ceisio ei ddarparu.

Dweud eich Dweud

Mae eich sylwadau'n helpu ni i wella ansawdd ein gwasanaethau, felly rhowch wybod i ni. Mae'n helpu os dywedwch wrthym pan rydym yn gwneud pethau'n dda.

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn, ceisiwch ei ddatrys gyda'r sawl rydych yn delio â hwy yn gyntaf. Os ydych yn dal yn anfodlon, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol system gwyno ffurfiol. Mae taflen yn rhoi gwybodaeth bellach ar gael yn ein swyddfeydd lleol neu gan eich gweithiwr cymdeithasol.

Mae'r daflen hon yn seiliedig ar destun *'Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd'* gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhannu Gwybodaeth

Wrth gyflawni asesiadau, gallai fod angen gofyn i asiantaethau eraill, megis addysg neu iechyd, am wybodaeth sydd ganddynt ynghylch eich plentyn. Gallai fod angen hefyd i rannu gwybodaeth gyda'r asiantaethau hyn. Byddwn yn sicrhau y byddwn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwarchod Data bob amser. Byddwn fel arfer yn gofyn am eich caniatâd, ond lles eich plant yn ein prif flaenoriaeth ac, ar adegau, mae'n bosibl y bydd raid i ni wneud ymholiadau cyn cael caniatâd ymlaen llaw oddi wrthych. Byddwn yn gofyn am ac yn rhannu gwybodaeth ar sail 'yn ôl yr angen' yn unig. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol.

Cysylltu â'ch Swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol leol

Mae'r daflen hon yn cael ei datblygu ar dâp sain, mewn braille ac ieithoedd eraill. Gofynnwch am gopi gan y Tîm Cynllunio a Datblygu. Ffôn: 01978 292979.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol Ardal Ganolog a Gogledd**
  3 - 5 Ffordd Grosvenor
  Wrecsam
  LL11 1BD

  Ffôn: 01978 291422
  Ffacs: 01978 267131
  Minicom: 01978 310518

- **Gwasanaethau Cymdeithasol Ardal y De**
  Stryd Fawr
  Rhiwabon
  Wrecsam
  LL14 6NH

  Ffôn: 01978 813700
  Ffacs: 01978 813707
  Minicom: 01978 813701